

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Caiff y modiwl hwn ei gyflwyno mewn blynyddoedd eilrif

Gwybodaeth am y rhaglen

Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau MSc yn seiliedig ar ddarllen gwerslyfr gosod unigol dan arweiniad. Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau chwe modiwl gwerth 180 o bwyntiau i ennill y radd.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae theori brasamcanu yn ymwneud â brasamcanu ffwythiannau dosbarth penodol gan ddefnyddio ffwythiannau o ddosbarth arall, mwy elfennol fel arfer. Un enghraifft syml yw'r broblem o frasamcanu ffwythiant fel e^x gan ddefnyddio ffwythiannau polynomial. Mae datrys problemau o'r fath mewn modd effeithlon yn hynod bwysig ar gyfer cyfrifiannu ac mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i fyfyrwyr i'r theori fathemategol sy'n sail i sawl dull o frasamcanu a ddefnyddir yn gyffredin. Er mwyn gwerthfawrogi'r theori hon, bydd yn rhaid i fyfyrwyr weithio ar sawl problem rifyddol, felly bydd angen cyfrifiannell wyddonol arnyn nhw a'r tiwtor. Mae'r modiwl yn seiliedig ar *Approximation Theory and Methods* gan M. J. D. Powell (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1981).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

- Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:
- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc arall sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl, ynghyd â thystiolaeth o astudiaeth ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg megis gradd uwch mewn mathemateg
- profiad o weithio mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i'r modiwl
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o gyfran fawr o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- y gallu i gyflwyno mathemateg yn electronig ac anodi dogfennau PDF
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu (rhoddir hyfforddiant), megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant) i gyfathrebu â myfyrwyr lle y bo'n gymwys
 - marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig (ar ffurf PDF) ar y sgrin (eTMAs)

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu yn y maes pwnc arbenigol perthnasol ar lefel ôl-raddedig neu drydedd flwyddyn

Bydd gofyn i chi farcio aseiniadau'n electronig. Bydd hyn ar ffurf PDF

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	2
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	2.5